

Ymateb i ddiwygiadau i GSGA Sir Gaerfyrddin

(1) Nodwn fod gwahoddiad i ymateb yn unig i'r diwygiadau a gynigir i'r Cynllun - gan fod ymgynghoriad llawn wedi bod ar gynnwys y cynllun ei hun, ac ymateb Cymdeithas yr Iaith i hynny i'w weld yma.

(2) Yn gyffredinol, mae Rhanbarth Caerfyrddin o Gymdeithas yr Iaith yn gefnogol iawn i'r diwygiadau gan eu bod yn anelu at sicrhau fod yr amcanion yn cael eu gwireddu o fewn amserlen rhesymol. Cyfeiriwn yn arbennig at y bwriad i ymchwilio i fodel trochi er mwyn sicrhau na chaiff hwyrdyfodiaid i'r sir eu hamddifadu o'r Gymraeg sy'n allweddol i'w cymhathiad cymdeithasol a diwylliannol. Nid yw'n deg fod cyfiawnder iddynt yn ddibynnol ar "anghytundeb gwleidyddol" na diffyg cyllid. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth. Yn y cyfamser dylid diwygio cynllun athrawon bro i dargedu ysgolion penodol a hwyr-ddyfodiaid er mwyn gwneud iawn am anghyfiawnder.

(3) Cefnogwn hefyd y bwriad "i gynorthwyo trawsdoriad o ysgolion cynradd ac uwchradd i symud ar hyd y continwwm iaith" a bod "o leiaf 4 ysgol uwchradd yn symud ar hyd y continwwm" cyn 2020. Mae angen targedau cadarn i wireddu'r strategaeth.

(4) Tynnwn sylw at berygl botensial y ddau gymal sy'n datgan y bydd cynllun Band B Rhaglen "Moderneiddio" Ysgolion yn sicrhau cynnydd mewn llyfudd cyfrwng Cymraeg trwy roi "ystyriaeth benodol i ysgolion sydd o fewn 10% o'u cynhwysedd". Amlygir rhagfarn drefol yma. Mae'n wir fod angen cynyddu darpariaeth mewn ysgolion penodedig Cymraeg mewn ardaloedd trefol o Gymru lle bo dewis cyfrwng a'r galw am addysg Gymraeg yn cynyddu. Yn y rhannau gwledig o Sir Gâr, fodd bynnag, mae angen cydnabod mai'r nod ers cenhedlaeth yw sicrhau fod POB ysgol yn Gymraeg ei chyfrwng. Gall y cymalau hyn, fel y'u cynigir, filwra'n erbyn buddiannau ysgolion cynradd gwledig naturiol Gymraeg lle bo 10% o lefydd gwag (gall fod ond 5 neu 6 disgybl !). Gall olygu na fydd buddsoddiad mewn ysgolion o'r fath, a bod llai o ddisgyblion o ganlyniad a fyddent o bosibl yn symud tuag at ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Mae angen buddsoddiad teg hefyd yn ein hysgolion gwledig.

Rhanbarth Caerfyrddin Cymdeithas yr Iaith
15/9/17